



RHEOLAU SEFYDLOG

ADOLYGWYD AC ADDASWYD MAI 2014

Ni ellir newid unrhyw beth a danlinellir (gweler Rheol 69)

CADAIR

1. a) Etholir y Cadeirydd gan Gyngorwyr y Cyngor Tref yn y Cyfarfod Blynyddol.

DIRPRWY GADAIR

2. a) Etholir yr Is Gadair gan Gyngorwyr y Cyngor Tref yn y Cyfarfod Blynyddol.
- b) Os bydd y Cadeirydd am unrhyw reswm yn methu gweithredu, neu os bydd swydd y Cadeirydd yn wag, caiff Dirprwy Gadeirydd gyflawni bob gorchwyl y gallai'r Cadeirydd ei gyflawni; eithr ni chaiff gadeirio mewn cyfarfod o'r Cyngor oni etholir ef/hi yn unswydd i wneud hynny yn y cyfarfod.

CYFARFODYDD

3. a) Cynhelir Cyfarfodydd o'r Cyngor ar yr ail Nos Iau o bob mis, ac eithrio mis Awst.
- b) Mewn blwyddyn etholiad cynhelir y Cyfarfod Blynyddol statudol ar y dydd y daw'r rhai a etholwyd yn yr etholiad hwnnw i'w swydd, neu cyn un diwrnod ar hugain wedi'r diwrnod hwnnw, ac ymhob blwyddyn arall cynhelir y Cyfarfod Blynyddol ar y dydd ym mis Mai a benodo'r Cyngor. Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
- c) 1. Gall y Cadeirydd alw Cyfarfod Anarferol o'r Cyngor ar unrhyw adeg.
2. Os cyflwynir i'r Cadeirydd gais wedi ei arwyddo gan dri Chynghorydd, am alw cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor, ac yntau/hithau yn gwrthod gwneud hynny, neu, (er nad yw'n gwrthod) os yw heb alw cyfarfod anghyffredin cyn pen saith niwrnod wedi cyflwyno'r cais; yna, pan wrthodir, neu ar derfyn y saith diwrnod (yn ôl y digwydd) gall unrhyw dri Chynghorydd rhag blaen alw cyfarfod anghyffredin o'r Cyngor.
- ch) Dri diwrnod llawn cyn cyfarfod y Cyngor (ni chyfrifir y diwrnod derbyn, y Sadwrn a'r Sul na diwrnod y cyfarfod):-

1. Rhaid gosod rhybudd am fan ac amser y cyfarfod wedi ei alw gan Gyngorwyr, neu ar eu cais, rhaid i'r Cyngorwyr hynny arwyddo'r rhybudd, a rhaid enwi'r gwaith y bwriedir ei wneud yn y cyfarfod.
 2. Rhaid gadael ym mhreswylfod pob Cyngorwyr, neu anfon yno drwy'r post, neu e-bost, wŷs i'r Cyngorydd i ddod i'r cyfarfod, a honno wedi ei arwyddo gan swyddog priodol y Cyngor ac yn enwi'r gwaith y bwriedir ei wneud yn y cyfarfod.
 3. Ni wneir cyfarfod yn annilys am fod rhyw Gyngorydd heb dderbyn gwŷs yn unol ag is-baragraff 3(d) uchod.
- d)** Caniateir i Gyngorwyr roi eitemau ar Raglen Cyfarfod Arferol y Cyngor Tref hyd at y dydd Iau cyn y Cyfarfod Arferol (heblaw am pan wneir trefniadau arbennig e.e. ar Wyliau'r Banc).
- dd)** Ni chaniateir i unrhyw gyfarfod o'r Cyngor Tref barhau mwy na dwy awr, oni bai bod y Rheolau Sefydlog yn cael eu rhoi o'r neilltu (Gweler Rheol 69).

CADEIRYDD Y CYFARFOD

4. Bydd y sawl sydd yn cadeirio mewn Cyfarfod, yn arfer holl alluoedd a dyletswyddau'r Cadeirydd mewn perthynas â threfn y cyfarfod.
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn

SWYDDOG PRIODOL

5. Pan fydd deddf, rheoliad neu orchymyn yn rhoddi i swyddog priodol y Cyngor swyddau neu ddyletswyddau, yn y materion a enwir yma, y Clerc fydd y swyddog priodol.
- a) Derbyn datganiadau derbyn swydd.
 - b) Derbyn a chofnodi datganiadau yn datguddio buddiant ariannol.
 - c) Derbyn a chadw cynlluniau a dogfennau.
 - ch) Arwyddo Rhybuddion a dogfennau eraill ar ran y Cyngor.
 - d) Derbyn copïau o is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor.
 - dd) Ardystio copïau o is-ddeddfau a wnaed gan y Cyngor.
 - e) Arwyddo gwysion i gyfarfodydd y Cyngor.
- Mewn unrhyw fater arall, y sawl a enwir gan y Cyngor fydd y swyddog priodol, ac onid enwir neb gan y Cyngor, y Clerc.

CWORWM

6. a) Traean y Cyngorwyr fydd y cworwm
 (16 o aelodau sydd ar Gyngor Tref Ffestiniog, ond cyfrifir y traean yn ôl y nifer o seddi llawn)
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
- b) Os na fydd cworwm yn bresennol pan ddaw'r Cyngor ynghyd, neu os a nifer y Cyngorwyr sydd yn bresennol yn llai na'r cworwm yn ystod y cyfarfod, trafodir y busnes nas trafodwyd yn y cyfarfod, naill ai yn y cyfarfod nesaf neu ar ddiwrnod a bennir gan y Cadeirydd.

PLEIDLEISIO

7. Pleidleisir yng nghyfarfodydd y Cyngor drwy arddangos dwylo, neu, os gofynnir am hynny gan o leiaf tri chynghorydd, drwy bleidlais gudd.
8.
 - a) Gall unrhyw Gynghorydd ofyn am gofnodi pleidlais naill ai cyn neu ar ôl y bleidlais a rhaid i'r Clerc gofnodi enwau'r rhai a bleidleisiodd ar y cynnig hwnnw, yn y fath fodd ag i ddangos ai dros y cynnig ai yn ei erbyn y pleidleisiodd pawb.
 - b) Gall Cynghorydd gadw iddo'i hyn yr hawl i gofnodi ei wrthwynebiad i unrhyw benderfyniad gan y Cyngor
9.
 - a) Gall y Cadeirydd bleidleisio fel Cynghorydd ar unrhyw fater, ac os bydd y pleidleisiau ar unrhyw fater yn gyfartal, gall hefyd roi pleidlais fwrw.
 - b) Ni chaiff y Cadeirydd bleidleisio fel Cynghorydd yn etholiad y Cadeirydd ar achlysur pryd y bydd ef/hi ei hun yn peidio â bod yn Gynghorydd yn union wedi gadael y gadair.

TREFN BUSNES

10.
 - a) Rhaid i Gynghorwyr newydd eu hethol gwneud Datganiadau Derbyn Swydd cyn gweithredu. Mewn blwyddyn etholiad, dylent wneud hynny yng ngŵydd y Clerc, ar ddechrau'r Cyfarfod Blynyddol neu eu Cyfarfod Cyntaf.
 - b) Ym mhob Cyfarfod Blynyddol y busnes gyntaf fydd:-
 1. Ethol Cadeirydd
 2. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd y Cadeirydd
 3. Os bydd y sawl a etholwyd yn Gadeirydd yn absennol, penodi Cadeirydd i'r cyfarfod.
 4. Ethol Dirprwy Gadeirydd.
 5. Derbyn Datganiad Derbyn Swydd Ddirprwy Gadeirydd
 6. Penodi aelodau is bwyllgorau
 7. Enwebu a phenodi Cynghorwyr i gyrff allanol gan gynnwys Byrddau Llywodraethwyr ysgolion perthnasol.
 8. Mabwysiadu'r Rheolau Sefydlog
 9. Mabwysiadu'r Rheoliadau Ariannol
 10. Penodi Archwilydd Mewnol
 11. Archwilio unrhyw weithredoedd a dogfennau ymddiriedolaeth sydd yng ngofal y Cyngor os yn berthnasol, a derbyn copi o bolisi yswiriant adeilad
 12. Adolygu polisiau'r Cyngor neu osod amserlen i wneud hynny
11. Ym mhob cyfarfod busnes heblaw'r Cyfarfod Blynyddol, os bydd y Cadeirydd yn absennol neu'n amharod i lywyddu, penodi Cadeirydd i'r cyfarfod fydd y busnes cyntaf, ac wedi hynny derbyn y Datganiadau Derbyn Swydd hynny (os bydd) a ofynnir gan y gyfraith.
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
12. Yn y Cyfarfod Arferol lle bydd y praesept yn cael ei drin bydd y busnes cyntaf yn cynnwys ystyried a ddylid adolygu cyflog a thelerau'r rhai sydd ar y pryd yn gyflogedig gan y Cyngor. (Gweler Rheol Sefydlog 34).
13. Yn y Cyfarfod Arferol wedi gorffen y busnes gyntaf, oni phenderfyna'r Cyngor yn wahanol am resymau brys, hon fydd trefn y busnes:-
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
 1. Datgan Diddordeb

2. Materion Brys
3. Materion yr Heddlu
4. Siaradwyr (pan yn berthnasol)
5. Derbyn a Chadarnhau Cofnodion Cyfarfod blaenorol a chymeradwyo eu harwyddo gan Gadeirydd y cyfarfod
6. Cyfrifon i'w Talu
7. Ceisiadau Ariannol
8. Argymhellion Is Bwyllgorau
9. Ceisiadau Cynllunio
10. Rhybudd o Gynigiad
11. Datblygiadau yn yr ardal
12. Trafod unrhyw fusnes mae'r Ddeddf yn mynnu
13. Materion er Gwybodaeth

14. Gall Cadeirydd neu unrhyw Gynghorydd awgrymu newid trefn y busnes am resymau brys, ac os Cadeirydd y cyfarfod a awgrymodd, gellir rhoi hyn i bleidlais heb ei eilio a heb drafodaeth.
15. Ni cheir trafodaeth ar y cofnodion ond ynglŷn â'u cywirdeb. Trwy benderfyniad y gwneir cywiriadau yn y cofnodion, a chaiff hyn ei adlewyrchu yn y cofnodion nesaf.

CYNIGION A GYFLWYNIR WEDI RHYBUDD

16. Ac eithrio fel y darperir gan y Rheolau Sefydlog hyn, ni cheir cyflwyno unrhyw gynnig oni fydd y cynigydd wedi rhoi rhybudd am ei eiriad a'i gyflwyno i'r Clerc cyn dyddiad cau'r Rhaglen.
17. Rhaid i'r Clerc ddyddio pob rhybudd o gynnig neu argymhelliad pan dderbynio ef, rhifo pob rhybudd yn y drefn y derbyniwyd ef, a rhoi copi mewn ffeil ar gael i'w archwilio gan unrhyw Gynghorydd.
18. Rhaid i'r Clerc gynnwys yng ngwŷs pob cyfarfod pob rhybudd o gynnig neu argymhelliad a roddwyd yn briodol, yn y drefn y derbyniwyd hwy, oni bai i'r Cynghorydd a roddodd y cynnig fynegi mewn ysgrifen mai mewn cyfarfod diweddarach y mae'n bwriadu ei gyflwyno, neu ei fod/bod yn ei dynnu'n ôl.
19. Os bydd cynigydd unrhyw gynnig sydd ar Raglen cyfarfod benodol yn methu â bod yn bresennol yn y cyfarfod hwnnw, mae ganddo/ganddi'r hawl i drefnu bod cynghorydd arall yn rhoi ei gynnig/chynnig ger bron, tra bod y Cadeirydd a'r Clerc wedi cael gwybod hynny ymlaen llaw. Os na fydd y cynigydd wedi trefnu hyn bydd y cynnig (oni bai bod y Cyngor yn ei ohirio) yn cael ei drin fel un wedi ei dynnu'n ôl ac ni cheir ei roi heb rhybudd newydd.
20. Os bydd pwnc unrhyw gynnig o fewn maes rhyw Is Bwyllgor o'r Cyngor, gellir ei gyflwyno, wedi ei gynnig a'i eilio ac amlinellu'r mater ond heb drafodaeth, i'r Is Bwyllgor hwnnw, neu i ryw Is Bwyllgor arall a benno'r Cyngor ar gyfer trafodaeth ac argymhelliad. Eithr os bydd y Cadeirydd yn barnu bod y pwnc yn fater brys gall ganiatáu ei drafod yn y cyfarfod lle cynigwyd ef.

CYNIGION A GYFLWYNIR HEB RYBUDD

21. Gellir cyflwyno heb rybudd gynigion yn ymwneud a'r materion hyn:
- a) Penodi Cadeirydd i'r cyfarfod.
 - b) Cywiro cofnodion.
 - c) Cymeradwyo cofnodion.
 - ch) Newid trefn y gweithgareddau.
 - d) Symud i'r mater nesaf.
 - dd) Terfynu neu oedi'r drafodaeth.
 - e) Cyflwyno pwnc at Is-Bwyllgor
 - f) Penodi pwyllgor neu aelodau i bwyllgor.
 - ff) Mabwysiadu adroddiadau.
 - g) Awdurdodi selio dogfennau.
 - ng) Cyflwyno gwelliant i gynnig.
 - h) Rhoi caniatâd i dynnu cynnig neu welliant yn ôl.
 - i) Estyn yr amser a ganiateir i araith.
 - l) Ystyried unrhyw gwestiwn brys yn ymwneud ag un o wasanaethyddion cyflog y Cyngor, a hynny heb ei anfon at is bwyllgor.
 - ll) Cau'r wasg allan.
 - m) Cau'r cyhoedd allan.
 - n) Rhoi taw ar Gynghorydd a enwir am gamymddwyn, neu ei (h)anfon o'r cyfarfod.
 - o) Gwahodd Cynghorydd a chanddo fuddiant yn y mater dan sylw i aros i gynnig gwybodaeth perthnasol i'r drafodaeth pan fyddo ef/hi wedi Datgan Diddordeb
 - p) Rhoi caniatâd y Cyngor lle y bo'r Rheolau Sefydlog hyn yn gofyn hynny.
 - ph) Ni chaniateir eitem ar Raglen Cyfarfod Arferol o'r Cyngor Tref a elwir yn 'Unrhyw fater arall'. Ni cheir gwneud penderfyniad ar unrhyw eitem brys nad yw ar Raglen Cyfarfod Arferol o'r Cyngor Tref, dim ond ei raglennu ar gyfer y cyfarfod nesaf o'r Cyngor Tref neu is bwyllgor perthnasol. Fodd bynnag, sylwer ar Reol Sefydlog 20 sydd yn egluro beth i wneud mewn sefyllfa brys.

CWESTIYNAU O FEWN CYFARFOD

22. a) Caiff Cynghorydd ofyn i'r Cadeirydd unrhyw gwestiwn ynglŷn â busnes y Cyngor sydd ar y Rhaglen
- b) Caiff Cynghorydd gyda rhybudd neu heb rhybudd ofyn i Gadeirydd Pwyllgor unrhyw gwestiwn ar weithrediadau'r Pwyllgor sydd ar y pryd gerbron y Cyngor, ond iddo ei ofyn cyn i'r Cyngor orffen ystyried y gweithrediadau hynny.
- c) Heb drafodaeth y gofynnir ac yr atebir bob cwestiwn.
- ch) Mae'n rhydd i'r sawl y gofynnir cwestiwn iddo/iddi wrthod ateb.
- d) Pryd na ellir yn hwylus ateb unrhyw gwestiwn ar lafar, ystyrir fod yr ateb yn ddigonol os anfonir ef i aelodau'r Cyngor yn fuan wedyn neu gyda chofnodion y cyfarfod lle gofynnwyd y cwestiwn.

RHEOLAU DADL

23. Rhaid i bob cyfraniad tuag at y drafodaeth, bo hynny yn araith neu gwestiwn, fod drwy'r Gadair. Rhaid i gynghorydd arwyddo ei fod/ei bod yn dymuno siarad drwy godi ei law/llaw.
24. Os bydd y Cadeirydd yn curo'r bwrdd neu yn codi ar ei draed yn ystod unrhyw drafodaeth rhaid i bob cynghorydd arall dewi.
25. Ni cheir trafod dyfarniad y Cadeirydd ar fater o drefn, neu ar dderbynioldeb esboniad personol.
26. Os cyfyd llaw mwy nac un cynghorydd, bydd y Cadeirydd yn galw ar un ohonynt i siarad, a rhaid i bawb arall gadw'n dawel tra'n aros eu tro i siarad.
27. a) Ni cheir trafod cynnig na gwelliant heb fod wedi ei gynnig a'i eilio, ac oni roddwyd rhybudd priodol amdano eisoes, os gofyn y Cadeirydd hynny, rhaid ei ysgrifennu a'i ddarllen allan gan y Cadeirydd cyn ei drafod ymhellach neu ei roi i bleidlais.
- b) Wrth eilio cynnig neu welliant, gall Cynghorydd gadw ei araith hyd adeg diweddarach yn y ddadl, ond iddo fynegi'r bwriad i wneud hynny wrth eilio.
- c) Rhaid i Gynghorydd gyfeirio'r araith at y cwestiwn sydd dan sylw neu at esboniad personol, neu gwestiwn o drefn.
- ch) Ni chaiff araith barhau mwy na phum munud, ac eithrio drwy ganiatâd y Cyngor.
- d) Rhaid i welliant ychwanegu geiriau neu ddileu geiriau
- dd) Ni cheir gwelliant sy'n negyddu'r cynnig ger bron y Cyngor.
- e) Os yw eilydd yn cydsynio, gall cynigydd gynnig gwelliannau i'w gynnig/ei chynnig ei hun
- f) Dylid pleidleisio ar y gwelliant, ar ôl ei eilio, cyn pleidleisio ar y cynnig gwreiddiol.

- ff) Nid yw'r ffaith bod gwelliant wedi ei wrthod yn golygu bod y prif gynnig wedi ei dderbyn, na chwaith bod derbyn gwelliant yn golygu bod y cynnig a wellwyd yn cael ei dderbyn. Dylid pob amser pleidleisio ar y prif gynnig ar ôl pleidleisio ar y gwelliant.
- g) Os mabwysiedir gwelliant, bydd y cynnig gyda'r gwelliant yn disodli'r cynnig gwreiddiol, a gellir cynnig gwelliannau pellach arno.
- ng) Ni cheir cynnig gwelliant pellach nes cael gwared ar bob gwelliant cynharach (ond gellir gyda chaniatâd y Cadeirydd roi rhybudd am fwriad i gynnig gwelliant pellach).
- h) Bydd hawl i ateb gan gynigydd cynnig neu welliant.

Dim ond drwy ddoethineb y Cadeirydd y caiff cynghorydd (heblaw'r cynigydd) siarad fwy nag unwaith ar unrhyw benderfyniad. Yr unig eithriadau yw:

1. I gynnig gwelliant neu welliant ychwanegol
2. Ar gwestiwn o drefn neu esboniad personol. (Rhaid I'r esboniad personol gyfeirio at ryw ran sylweddol o araith gynharach o'i (h)eiddo rhag ofn ei fod wedi cael ei gamddeall/ei chamddeall).
3. I gynnig cau'r drafodaeth

Rhaid gwrandao ar unwaith ar gynghorydd sy'n dangos ei fwriad/bwriad i wneud hyn drwy godi ei law/llaw.

- i) Gall cynigydd dynnu'n ôl ei gynnig/chynnig a ni chaiff unrhyw gynghorydd siarad ar y mater bellach.
- l) Pan fydd cynnig o dan drafodaeth, ni cheir gwneud unrhyw gynnig arall heblaw
 1. Gwelliant i'r cynnig
 2. Symud i'r mater nesaf
 3. Oedi'r drafodaeth
 4. Pleidleisio ar y cynnig
 5. Bod y Cynghorydd yn darfod siarad.
 6. Bod cynghorydd a enwir i adael y cyfarfod
 7. Cyflwyno'r mater at is bwyllgor
 8. Cau allan y wasg neu'r cyhoedd neu'r ddau
 9. Oedi'r cyfarfod

Os yw eilydd yn cydsynio, gall cynigydd gynnig gwelliannau i'w gynnig/ei chynnig ei hun.

TERFYNU DADL

- 28.
- a) Ar derfyn unrhyw araith, caiff unrhyw gynghorydd gynnig (heb sylwadau) "bod ni'n rhoi'r cynnig i bleidlais yn syth" neu
 - b) "na fo mwy o drafodaeth ar hyn o bryd ond ei ohirio at amser arall" neu
 - c) "bod oediad yn y cyfarfod"

Os eilir y cynnig –

1. “bod ni’n rhoi’r cynnig i bleidlais yn syth” ac os yw’r Cadeirydd yn barnu fod y mater gwreiddiol gerbron y Cyngor wedi’i drafod yn ddigonol rhaid iddo/iddi ar unwaith roi’r cynnig gwreiddiol i bleidlais wedi i’r cynnigydd gael cyfle i ateb neu beidio ag ateb. Os nad yw’r Cadeirydd yn barnu bod digon o drafodaeth wedi bod, mae ganddo/ganddi’r hawl i ddweud hynny.
 2. “na fo mwy o drafodaeth ar hyn o bryd ond ei ohirio at amser arall” bydd y Cadeirydd yn dwyn y drafodaeth i ben ac yn cyhoeddi pa bryd yr ail agorir y drafodaeth.
 3. “bod oediad yn y cyfarfod” bydd y Cadeirydd yn cyhoeddi hyd doriad y cyfarfod a all fod rhwng deng munud ac wythnos.
- Ni fydd oedi’r drafodaeth neu'r cyfarfod y Cyngor yn effeithio ar hawl y cynnigydd i ateb pan ailgydir.

HAWL I ATEB

29. Ar derfyn pob dadl rhaid i’r Cadeirydd ofyn i’r cynnigydd a yw’n dymuno ateb unrhyw bwyntiau a wnaed yn ystod y drafodaeth a/neu grynhoi ei gynnig cyn ei roi i bleidlais. Os cynnig gwelliant, bydd gan gynnigydd y gwelliant hawl i ateb yn union cyn y rhoddir gwelliant i bleidlais. Ni chaiff y cynnigydd wrth ateb dwyn defnydd newydd i mewn. Wedi i’r cynnigydd ateb neu beidio ag ateb, pleidleisir heb drafodaeth ychwanegol.

CAMYMDDYGIAD

30. a) **Rhaid i gynghorwyr ddangos parch at eraill ac ystyriaeth ohonynt. Ni chaiff gynghorydd ymddwyn fel bwli neu harasio unrhyw berson. Rhaid i gynghorwyr gadw at y Cod Ymddygiad sy’n bodoli am y tro ac a allai gael eu hadolygu o dro i dro. Ni chaiff unrhyw gynghorydd gamymddwyn mewn cyfarfod drwy anwybyddu’n barhaus ddyfarniad y Cadeirydd, drwy fynnu rhwystro’r gweithgareddau, neu drwy ymddwyn yn afreolaidd, yn wrthun, yn amhriodol neu yn y fath fodd ag i dramgwyddo’r Cyngor neu i dynnu dirmyg neu wawd arno. Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn**
- b) Os bydd y Cadeirydd yn barnu fod cynghorydd wedi camymddwyn fel y disgrifir yn a) rhaid i’r Cadeirydd ddatgan ei farn i’r Cyngor, ac yna caiff unrhyw gynghorydd gynnig na wrandewir mwyach ar y cynghorydd a enwyd, neu ei fod yn gadael y cyfarfod; ac os eilir y cynnig fe’i rhoir i bleidlais rhag blaen heb drafodaeth.
- c) Os anwybyddir un o’r cynigion a enwir ym mharagraff (b), gall y Cadeirydd atal y cyfarfod neu gymryd y camau ychwanegol hynny sy’n rhesymol angenrheidiol i’w gorfodi. Croesgyfeirio i Reol Sefydlog 64.

DIDYMU PENDERFYNIAD BLAENOROL

31. a) Ni cheir gwrth-droi penderfyniad o eiddo’r Cyngor (boed gadarnhaol neu negyddol) cyn pen chwe mis, ac eithrio drwy benderfyniad arbennig, a hynny ar rybudd ysgrifenedig yn enw o leiaf pedwar cynghorydd.
- b) Wedi gwrth-droi'r penderfyniad hwnnw, ni cheir cynnig cyffelyb cyn pen chwe mis.
- c) Mae hawl, fodd bynnag, i newid penderfyniad is bwyllgor o fewn chwe mis.

PLEIDLEISIO AR GYNRYCHIOLAETH

32. Pan fo mwy na dau berson wedi eu henwebu ar gyfer unrhyw rôl ar ran y Cyngor ac ni cheir mwyafrif clir o bleidleisiau dros neb, dilëir o'r rhestr enw'r sawl a gafodd leiaf o bleidleisiau, a phleidleisir drachefn, gan ddilyn yr un drefn nes cael mwyafrif o bleidleisiau dros un person.

TRAFODAETHAU A PHENDERFYNIADAU YN EFFEITHIO AR STAFF Y CYNGOR

33. Os cyfyd mewn cyfarfod unrhyw gwestiwn ynglŷn â phenodiad, ymddygiad, dyrchafiad, diswyddiad, cyflog neu amodau gwaith unrhyw un a gyflogir gan y Cyngor, ni cheir ei drafod nes i'r Cyngor neu Is-Bwyllgor benderfynu cau allan y cyhoedd a'r wasg. Ni chaniateir trafod manylion unrhyw unigolyn yn gyhoeddus. (Gweler Rheol Sefydlog Rhif 62 a 12).

PENDERFYNU AR WARIANT

34. Pan roir cynnig gerbron a fyddai, o'i gario, yn ychwanegu'n sylweddol ar wariant ar unrhyw wasanaeth dan reolaeth y Cyngor, neu yn lleihau'r cyllid fyddai ar gael i'r Cyngor, neu'n golygu gwariant cyfalaf, a hyn ym marn y Cadeirydd, bydd raid:
- a) Cael cynnig ac eilydd
 - b) Atal trafodaeth bellach ar y pryd
 - c) Ei drafod o fewn Is-Bwyllgor perthnasol
 - ch) Ei drafod yng nghyfarfod Cyffredin nesaf o'r Cyngor

GWARIANT

35. **Rhaid awdurdodi taliadau drwy benderfyniad gan y Cyngor. Rhaid I bob siec gael ei arwyddo gan ddau lofnodydd awdurdodedig o blith y Cadeirydd, is Gadeirydd, cyn Cadeirydd a'r Clerc.**
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn

SELIO DOGFENNAU

36. a) Rhaid cael caniatâd y Cyngor cyn selio unrhyw ddogfen ar ei ran
- b) Os bydd y gyfraith yn mynnu bod angen selio unrhyw ddogfen, Y Clerc, fel Swyddog Priodol y Cyngor, a'r Cadeirydd neu Is Gadeirydd fydd yn gwneud hynny.

PWYLLGORAU AC IS BWYLLGORAU

37. Gall y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol benodi is bwyllgorau, a gall ar unrhyw adeg benodi is bwyllgorau eraill neu weithgorau fel bydd angen;
- a) Daw tymor aelodaeth bob is Bwyllgor i ben yn y Cyfarfod Blynyddol.

- b) Gall y Gall y Cyngor, ar unrhyw adeg, ddiddymu Is-Bwyllgor neu weithgor neu newid ei aelodaeth.
38. Bydd y Cadeirydd a'i ddirprwy/dirprwy yn aelodau o bob Is-Bwyllgor.
39. Cyn mynd at unrhyw waith arall yn ei gyfarfod cyntaf, rhaid i bob IsBwyllgor ethol Cadeirydd, a gall ethol Is Gadeirydd.
40. Gall pob Is-Bwyllgor benodi Panel Gwaith i bwrpas benodol fydd yn adrodd yn ol i'r Is-Is-Bwyllgor.
41. Bydd Cadeirydd ac Is Gadeirydd yr Is-Bwyllgor yn aelodau o bob Panel Gwaith a benodir ganddo, oni fynegant nad ydynt yn dymuno gweithredu.
42. Traean o'i aelodau fydd cworwm Is-Bwyllgor.
43. Defnyddir yr un rheolau dadl mewn Is Bwyllgor ag yng Nghyfarfod Arferol o'r Cyngor, hyd maent yn briodol.

PWYLLGORAU CYNGHORI

44. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i benodi pwyllgorau cynghori.

PLEIDLEISIO MEWN PWYLLGORAU

45. Drwy arddangos dwylo y pleidleisir mewn Is-bwyllgorau.
46. Bydd gan Gadeirydd Is-Bwyllgor ail bleidlais neu bleidlais fwrw.
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn

CYNGHORWYR NAD YDYNT YN AELODAU MEWN CYFARFODYDD IS BWYLLGOR

47. Oni fydd y Cyngor yn gorchymyn yn wahanol, bydd gan bob cynghorydd hawl i fod yn bresennol fel sylwedydd, heb bleidlais, yng nghyfarfod is-bwyllgorau nad yw ef/hi yn aelod ohonynt.
48. Pan gyrrir cynnig i Is Bwyllgor, nad yw'r cynnigydd yn aelod ohono, bydd ganddo/ganddi hawl i esbonio'r cynnig i'r Is Bwyllgor hwnnw, ond ni chaiff pleidleisio.

CYFRIFON A DATGANIAD ARIANNOL

49. a) Rhaid rhoi pob cyfrif i'w dalu a phob gofyn ariannol o flaen y Cyngor cyn ei dalu heblaw a ddangosir yn b)
- b) Os bydd angen taliad brys cyn ei awdurdodi gan y Cyngor, Y Clerc, fel Swyddog Priodol y Cyngor, neu'r Cadeirydd neu'r Is Gadeirydd sydd a'r hawl i'w awdurdodi, gan nodi ei gywirdeb a'i frys

- c) Rhaid rhestru pob taliad brys o'r fath ar wahân yn y rhestr taliadau nesaf a gyflwynir i'r Cyngor.

50. Wedi diwedd y Flwyddyn Ariannol, rhaid i'r Clerc roi i bob cynghorydd gopi o'r cyfrifon gan gynnwys yr holl dderbyniadau a thaliadau

GWARIANT ARFAETHEDIG

51. Rhaid i bob Is-Bwyllgor sy'n dymuno mynd i gost a delir o'r gyllideb gyflwyno i'r Clerc cyn diwedd Mis Tachwedd amcangyfrif ysgrifenedig o'r gwariant a argymhellir am y flwyddyn sydd i ddod. Cyflwynir yr amcangyfrif hwn i'r Is-Bwyllgor Adnoddau er trafodaeth ac argymhelliad. Caiff wedyn ei gyflwyno i'r Cyngor yn ei Gyfarfod Anarferol cyn diwedd Ionawr pan osodir y praesept ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod.

BUDDIANT PERSONOL

52. Os bydd gan Gynghorydd unrhyw fuddiant ariannol, yn uniongyrchol neu yn anuniongyrchol, yn ôl diffiniad y Cod Ymddygiad sydd yn bodoli ar y pryd a all gynnwys contract neu gontract bwriad rhaid iddo/iddi ddatgan pa un o'r tri math o fuddiant canlynol yw –

- a) Ni yw yn fuddiant sy'n rhagfarnu
- b) Mae yn fuddiant sy'n rhagfarnu a rhaid gadael y cyfarfod
- c) Mae yn fuddiant sy'n rhagfarnu ond derbyniwyd gollyngiad gan y Pwyllgor Safonau

53. Rhaid cadw cofnod o Ddiddordebau a Buddiant Personol pob Cynghorydd drwy:

- a) Cadw Cofrestr o Ddiddordebau Cynghorwyr
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
- b) Ei ddiweddarau yn drwyadl ym mhob Cyfarfod Blynyddol
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
- c) Ei ddiweddarau yn rheolaidd yn ystod y flwyddyn wrth i newidiadau ddigwydd
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
- ch) Cofnodi pob Datganiad Hysbyseb o Fuddiant Personol yng nghofnodion oll gyfarfodydd y Cyngor a'r Is-Bwyllgorau
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
- d) Ffeilio'r ffurflenni Datganiad Hysbyseb o Fuddiant Personol gwreiddiol dan enw'r Cynghorydd
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
- dd) Rhaid i'r gofrestr a'r ffurflenni a gyfeirir atynt yn a) a d) uchod fod yn agored i archwiliad gan unrhyw Gynghorydd neu aelod o'r cyhoedd yn ystod oriau rhesymol
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn

54. Rhaid i bob ymgeisydd am swydd yng nghyflogaeth y Cyngor ddatgan os yw'n gwybod ei fod/bod yn perthyn i unrhyw Gynghorydd neu Swyddog. Rhaid hefyd i Gynghorydd neu Swyddog ddatgan perthynas gydag ymgeisydd. Ni phenodir unrhyw un sydd heb ddatgelu'r fath berthynas. Gellir diswyddo unrhyw un a benodwyd heb rybudd pe ddarganfyddir wedyn bod y fath berthynas yn bodoli. Rhaid i'r Clerc adrodd i'r panel penodi ac i'r Cyngor llawn pan fu datgan perthynas a bydd Rheolau Sefydlog ynglŷn â buddiant yn cael eu gweithredu. Bydd i'r Clerc wneud y rheol hon yn glir i bob ymgeisydd.

CANFASIO

55. a) Bydd canfasio Cynghorwyr neu unrhyw bwyllgor, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, am unrhyw benodiad i swydd yng nghyflogaeth y Cyngor, yn golygu na chaiff yr ymgeisydd hwnnw ei ystyried am y swydd. Bydd I'r Clerc wneud y rheol hon yn glir i bob ymgeisydd.
- b) Ni chaiff Cynghorydd ganfasio dros unrhyw ymgeisydd ar gyfer penodiad neu ddirchafiad. Fodd bynnag gall Cynghorydd roi gwybodaeth ysgrifenedig am allu, profiad, neu gymeriad ymgeisydd.
- c) Os digwydd canfasio mae'n ddyletswydd ar bob Cynghorydd i adrodd i'r Clerc amdano.
56. Bydd Rheol Sefydlog 54 yr un mor berthnasol mewn sefyllfa o osod cytundeb.

ARCHWILIO DOGFENNAU

57. Fel rhan o waith Cynghorydd, caiff Cynghorydd archwilio a gwneud copi o unrhyw ddogfen sydd ym meddiant y Cyngor ac eithrio rhai sy'n cynnwys manylion personol neu unrhyw wybodaeth sydd dan orchudd ddeddfwriaeth gwarchod data.
58. a) a) Bydd yr holl gofnodion a gedwir gan y Cyngor a chan ei bwyllgorau yn agored i'w archwilio gan unrhyw Gynghorydd.
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
- b) Bydd Cofnodion cyfarfodydd y Cyngor, ynghyd a chofnodion is bwyllgorau sydd wedi eu cymeradwyo, cyfrifon a dalwyd, datganiadau ariannol neu grynoded o gyfrifon, ac adroddiadau archwilwyr, yn agored i'w harchwilio gan unrhyw etholwr llywodraeth leol yr ardal. Bydd y mynediad yma yn ddi-dâl ond ceir codi swm rhesymol am gopiâu.

GWEITHREDU HEB AWDURDOD

59. Cyn gweithredu ar ran y Cyngor fel sy'n a), b) a c) rhaid yn gyntaf gael awdurdod gan y Cyngor neu Is-bwyllgor.
- a) Siarad ar ran y Cyngor neu yn enw'r Cyngor
- b) Rhoddi gorchymyn neu archeb ar ran y Cyngor neu yn enw'r Cyngor
- c) Archwilio unrhyw dir neu adeiladau yn eiddo'r Cyngor sydd fel arfer ar gau i'r cyhoedd.

60. Mewn argyfwng, os oes angen gweithredu rhwng cyfarfodydd rhaid cael cytundeb gan dri Chynghorydd.
61. Ni chaniateir i'r Cyngor weithredu tu hwnt i'w bwerau cyfreithiol, h.y. gweithredu '*ultra vires*', fel y'i diffinnir yn y llyfr 'Local Council Administration' (paragraff 22.8) sydd yn gyfredol ar y pryd.

MYNEDIAD Y CYHOEDD A'R WASG I GYFARFOD

62. Rhaid i'r cyhoedd a'r wasg gael mynediad i bob cyfarfod o'r Cyngor a'i bwyllgorau. Mewn rhai amgylchiadau prin(gweler isod) gall y Cyngor gau allan y cyhoedd a'r wasg ar gyfer trafodaeth ar eitem benodol drwy wneud penderfyniad i wneud hynny.
Mae angen dwy ran o dair o bleidlais i newid hwn
Enghreifftiau o'r fath sefyllfaoedd fyddai
- a) Penodi, amodau gwasanaeth, ymddygiad a diswyddo gweithwyr
 - b) Telerau tendrau, a chynigion a gwrth gynigion wrth negydu cytundebau
 - c) Paratoi achosion cyfreithiol
 - ch) Camau cyntaf unrhyw anghydfod
63. Rhaid i'r Clerc drefnu cyfleusterau rhesymol ar gyfer y wasg mewn unrhyw gyfarfod.
64. Os bydd unrhyw un o'r cyhoedd yn torri ar draws neu darfu ar unrhyw gyfarfod, gall y Cadeirydd, ar ôl rhoi rhybudd, orchymyn iddo/iddi adael. Gweler hefyd Rheol Sefydlog 30b

MATERION CYFRINACHOL

65. Ni chaiff unrhyw Gynghorydd ddatguddio i unrhyw un sydd ddim yn aelod o'r Cyngor unrhyw fater bydd y Cyngor neu'r is bwyllgor yn datgan ei fod yn gyfrinachol.

CYSYLLTIAD Â CHYNGHORWYR SIR

66. Anfonir hysbysiad am gyfarfodydd y Cyngor i'r Cynghorwyr Sir leol yn ôl eu dymuniad.

CEISIADAU CYNLLUNIO

67. a) Cyn gynted ag y derbynnir cais cynllunio rhaid i'r clerch nodi mewn rhestr bwrpasol y manylion hyn amdano:
1. Y dyddiad y derbyniwyd ef.
 2. Enw'r ymgeisydd.
 3. Y lle mae'n cyfeirio ato.
 4. Crynodeb o natur y cais.

Wedi i'r Awdurdod priodol wneud ei benderfyniad dylid cofnodi hwnnw yn yr un rhestr.

- b) Rhaid i'r Clerc gyfeirio pob cais cynllunio at y Cadeirydd a'r Is Gadeirydd cyn pen dau ddiwrnod gwaith wedi iddo'i dderbyn.
- c) O fewn dau ddiwrnod gwaith rhaid i'r Clerc ddanfôn y cais cyfan, wedi darparu tudalen sylwadau priodol, at un o Gynghorwyr y ward er mwyn ei gylchredeg at weddill o Gynghorwyr y ward am eu sylwadau.
Dylai pob Cynghorydd wneud pob ymdrech i anfon y cais ymlaen o fewn 48 awr o'i dderbyn a rhoi gwybod i'r Clerc bod hyn wedi digwydd; o fethu gwneud hynny, dylid hefyd rhoi gwybod i'r Clerc. Mae'n hanfodol bod y Clerc yn ymwybodol ble mae cais ar unrhyw adeg. I helpu hyn, ymarfer da yw i Gynghorwyr hysbysu'r Clerc pan fyddant oddi cartref.
Dylai'r Cynghorydd olaf i roi sylwadau ddychwelyd y cais i'r Clerc.
- ch) Pan nad oes digon o amser rhwng derbyn y cais a chyfarfod nesaf o'r Cyngor neu'r Is Bwyllgor Cynllunio I gylchredeg y cais yn llawn, bydd y Clerc yn dal gafael ar y cais er mwyn ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw.

RHEOLAU SEFYDLOG YNGLŶN Â CHYTUNDEBAU

- 68. a) Pan fwriedir gosod cytundeb gwerth mwy na £1,000.00 ar gyfer nwyddau, defnyddiau, gwasanaethau neu waith rhaid i'r Clerc roi o leiaf dair wythnos o rybudd cyhoeddus am y bwriad hwnnw, drwy o leiaf roi rhybudd yn ffenestr Swyddfa'r Cyngor Tref. Nid yw'r cymal yma yn berthnasol ar gyfer gwariant ar gyfer y pennawd 'Arian ar gyfer sefyllfa anarferol' (e.e. clirio eira).
- b) Rhaid i'r rhybudd enwi natur gyffredinol y cytundeb, y dyddiad cau a ble i gael manylion pellach.
- c) Dylid dilyn y Rheoliadau Ariannol ar gyfer paratoi pob cytundeb.
- ch) Os na dderbynnir tendrau, neu os yw bob tendr yr un fath, bydd y penderfyniad yn llaw'r Cyngor Tref.
- d) Bydd penderfyniadau ar dendrau pob tro yn seiliedig ar Werth Gorau gan ddefnyddio'r matrices a ddisgrifir yn y Rheoliadau Ariannol.
- dd) Bydd manylion y cytundeb yn cynnwys cyfeiriad at Reolau Sefydlog 54 - 56.

NEWID, DIDDYMU AC ATAL RHEOLAU SEFYDLOG

- 69. Drwy gynigiad wedi ei eilio, a dwy ran o dair o'r pleidleisiau, gellir rhoi unrhyw Reol Sefydlog neu ran ohoni (heblaw'r hyn sydd wedi ei danlinellu) o'r neilltu tra'n trafod mater penodol.
- 70. Pan roddir Rhybudd o Gynigiad i wneud newid parhaol i unrhyw Reol Sefydlog, wedi cael ei eilio, ni thrafodir ymhellach nes y Cyfarfod Cyffredinol nesaf.

RHOI'R RHEOLAU SEFYDLOG I'R CYNGHORWYR

71. Rhaid i'r Clerc roi copïau o Reolau Sefydlog y Cyngor Tref a'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr i bob Cynghorydd newydd yr un pryd a'r Datganiad Derbyn Swydd Cynghorydd.
72. Pan ddirprwyir Cynghorwyr i ddelio a mater gydag asiantaeth allanol dylid copïo'r Clerc i mewn i bob e-bost neu ohebiaeth.